



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol 2022-2023

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	1
<b>Cefndir</b> .....	2
<b>Atebolrwydd</b> .....	2
<b>Cydymffurfiaeth a Hyrwyddo</b> .....	3
Safonau Cyflenwi Gwasanaeth .....	7
Safonau Llunio Polisiâu .....	8
Safonau gweithredu .....	8
Safonau Hyrwyddo .....	13
<b>Gofynion Deddfwriaethol Penodol</b> .....	13
<b>Cwynion</b> .....	15
<b>Dweud eich Dweud</b> .....	16
<b>Mesurau</b> .....	17

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch: [polisi@npt.gov.uk](mailto:polisi@npt.gov.uk)

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlygu ein gwaith wrth weithredu safonau'r Gymraeg fel y'u cymhwysir i'r Cyngor yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen mwy o waith.

Mae cydymffurfio â'r safonau iaith yn parhau i fod yn heriol yn enwedig gyda nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg sy'n fodlon ac yn gallu defnyddio eu sgiliau iaith yn y gwaith. Er ein bod yn cydnabod nad yw pawb eisiau defnyddio eu sgiliau iaith yn y gwaith mae hefyd elfen o dan-adrodd a diffyg hyder ymhlith staff ac mae hyn yn rhywbeth yr hoffem ei ddeall yn llawnach wrth sgwrsio â staff dros y flwyddyn i ddod.

Rydym wedi cael ein calonogi gan y cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd fel yr amlygwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ac rydym yn gweithio i sicrhau bod y cynnydd hwn yn cael ei gynnal a'i ehangu ar draws pob maes gwasanaeth.

## Cefndir

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o sut yr ydym fel Cyngor wedi gweithredu safonau'r Gymraeg ac yn rhoi gwybodaeth am feysydd penodol: nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a gofynion iaith swyddi gwag fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (2011) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae'r safonau sydd wedi'u cymhwyso i'r Cyngor o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'u cynnwys yn ein [hysbysiad cydymffurfio](#).

## Atebolrwydd

Y Cyngor sy'n bennaf gyfrifol am weithredu'r safonau, a'r Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod gan bob aelod staff rôl i'w chwarae wrth weithredu'r safonau yn llwyddiannus.

Mae ein trefniadau llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Blynyddol gael ei fonitro gan y Cabinet, gyda Phwyllgor Craffu'r Cabinet yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod cynnydd o ran perfformiad yn cael ei gynnal.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn cefnogi'r Prif Weithredwr ac Aelodau etholedig ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r safonau. Yn ystod 2022/2023, cafodd y grŵp hwn ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol ac mae ganddo aelodaeth o bob cyfarwyddiaeth yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau cydraddoldeb lleol.

Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg (WLOG) yn cefnogi'r gwaith o weinyddu a gweithredu'r safonau ac yn helpu i ddatrys unrhyw faterion a allai godi yn gynnar, yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r dyletswyddau a osodir ar y Cyngor yn ogystal â helpu i hyrwyddo'r iaith.

Mae'r holl wybodaeth a deunyddiau cymorth sy'n ymwneud â gweithredu safonau'r Gymraeg ar gael ar NPT Connect (ein mewnrwyd) a gall staff eu cyrchu. Codir ymwybyddiaeth am ofynion y safonau trwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli cyfadrannau, cyfarfodydd tîm yn ogystal â thrwy

fecanweithiau cyhoeddusrwydd mewnol arferol y Cyngor, ee sianeli cyfathrebu Yammer, y cylchlythyr ar-lein, 'In the Loop' a chyfathrebu Sway.

## **Cydymffurfiaeth a Hyrwyddo**

### **Comisiynydd y Gymraeg: cydymffurfio â safonau'r Gymraeg**

Ym mis Gorffennaf 2022 fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth i gefnogi ein hunanasesiad o gydymffurfiaeth ar draws meysydd gwaith penodol, yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg tra roedd swyddogion y Comisiynydd yn cynnal arolygon bwrdd gwaith. Ym mis Chwefror 2023, gwnaethom gyfarfod â swyddog y Comisiynydd i drafod canlyniad yr ymarfer monitro cydymffurfiaeth.

Aseswyd 10 maes gweithgaredd: gohebiaeth e-bost, galwadau ffôn i'r prif rif ffôn, dogfennau/ffurflenni, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, ceisiadau am swyddi, derbyn ymwelwyr i adeiladau'r sefydliad, llunio polisi, asesu gofynion iaith swyddi newydd a swyddi gwag a hyrwyddo'r Gymraeg.

Aseswyd bod ein cydymffurfiaeth yn dda yn y mwyafrif o'r meysydd, yn enwedig cyfrifon corfforaethol cyfryngau cymdeithasol ac ymatebion i e-byst Cymraeg lle roedd ein cyfradd ymateb yn y Gymraeg yn well na'r gyfradd ymateb yn y Saesneg.

Er bod mwyafrif yr adborth a dderbyniwyd yn gadarnhaol, codwyd mân faterion yn y meysydd canlynol:

- Galwadau ffôn – allan o dri galwad ffôn a wnaed dim ond dwy a gafodd eu trin yn gyfan gwbl yn y Gymraeg.
- Dogfennau/ffurflenni – o'r tair dogfen a arolygwyd, nid oedd dwy ddogfen Saesneg yn nodi bod y ddogfen hefyd ar gael yn y Gymraeg ac roedd dolen anghyflawn ar ffurflen Gymraeg a aeth â chi i ddogfen Saesneg.
- Gwefan – o'r 15 tudalen a adolygwyd, roedd gan saith fân broblemau, lle'r oedd y tudalennau ychydig yn wahanol i'r dudalen Gymraeg neu oedd â dolen/fideo ar goll.
- Hysbysebu swyddi newydd a swyddi gwag - o'r pymtheg swydd wag a adolygwyd, nid oedd un swydd yn cydymffurfio â'r safonau gan nad oedd yn nodi y gallai'r ymgeisydd nodi a oedd am gael y



Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn dathlu ein hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd, gan gynnwys yn y gweithle.

Wyddech chi y gallwch chi...?

- Ymgymryd â hyfforddiant yn Gymraeg
- Ymgeisio am swyddi yn Gymraeg
- Cael mynediad at bolisiau AD yn Gymraeg
- Gwneud cwynion yn Gymraeg
- Cael mynediad at ddeunyddiau cymorth fel meddalwedd i'ch cefnogi pan fyddwch yn ysgrifennu'n Gymraeg
- cael mynediad at lofnodion e-byst a negeseuon allan o'r swyddfa Cymraeg
- Derbyn deunydd hyrwyddo... see more



Anogwyd staff hefyd i ychwanegu baner Diwrnod Hawliau'r Gymraeg at eu llofnod e-bost.

Bore da pawb! If anybody would like to include a banner on their e-mail signature for Welsh Language Rights Day on 7th December... you can add the following to your signature :-)



Rydym yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o gefndir tymhorol Welsh Microsoft Teams, ac i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gan gynnwys, i staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr, i annog cyfathrebu â staff trwy gyfrwng y Gymraeg.





Mae ein hadran Gymraeg ar ein gwefan wedi'i hailgynllunio i sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg, hyrwyddo'r Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ar gael yn hawdd. Bydd hon yn parhau i gael ei diweddarau a'i gwella yn ystod 2023/2024

## **Cynllun Corfforaethol 2022-227 - adfer ailosod adnewyddu**

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi ein hamcanion llesiant, ein blaenoriaethau, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd wrth inni adfer o'r pandemig ac ailosod ac adnewyddu gyda gweithgareddau a pholisïau i gyflawni gwelliannau cynaliadwy mewn gwasanaethau ac mewn canlyniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan ym mhob un o'n hamcanion llesiant; o addysg cyfrwng Cymraeg/pwnc ail iaith i fod yn sylfaen i rai o'n cymunedau; o sgil i'w ddysgu ac i fanteisio'n llawn arno gan gyflogwyr a gweithwyr i fod yn rhan bwysig iawn o'n treftadaeth a'n diwylliant (sydd hefyd yn cyfrannu at yr economi, gan gefnogi cyflogaeth â thâl).

Amcan Llesiant 3 - Mae cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau ein hamgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol, yn cyfeirio'n benodol at yr ymdeimlad olaf hwn lle mae pobl yn trysori'r iaith Gymraeg ac yn ymwneud yn weithredol â threftadaeth chwaraeon, diwylliannol a diwydiannol gyfoethog yr ardal.

## **Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**

**Gohebiaeth yn y Gymraeg** – ers cyflwyno'r ffurflen dewis iaith ar-lein Gymraeg yn unig mae'n ymddangos bod hyn wedi lleihau'n sylweddol nifer y ceisiadau gwallus a oedd yn nodwedd o'r ffurflenni dwyieithog ar-lein. Er mwyn sicrhau bod y gronfa ddata mor gywir â phosibl, bydd ymarferiad glanhau data, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 2022-2023, yn cael ei gynnal erbyn Rhagfyr 2023.

Mae 92 o bobl wedi nodi eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth gennym yn y Gymraeg.



**Cyfarfodydd y Cyngor** - Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar sail hybrid, gyda chyfranogwyr yn dewis a ydyn nhw'n mynychu yn bersonol yn Siambr y Cyngor neu a ydynt yn mewngofnodi o bell. Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y cyngor rhagwelwyd y byddem yn defnyddio *Zoom*. Ond gydag actifadu meddalwedd cyfieithu Cymraeg Microsoft *Teams*, rydym wedi gallu cynnig gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ar y pryd i bawb sy'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor (boed yn bersonol neu o bell) tra maen nhw'n cael eu hintegreiddio'n llawn â gwe-ddarlledu *Public-I* ac offer clyweledol hybrid y Cyngor.

## **Safonau Lluio Polisiâu**


Mae gofynion y safonau llunio polisiâu wedi'u hymgorffori yn fframwaith Asesiad Effaith Integredig (IIA) y Cyngor. Cynhelir y broses asesu effaith ar gyfer pob polisi / menter newydd a diwygiedig ac felly ystyrir cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg bob tro. Mae canllawiau cynhwysfawr a ffurflenni cysylltiedig ar gael ar hyn o bryd i holl staff NPT Connect.

Mae argymhellion o'r tri Archwiliad Asesu Effaith Integredig a gynhaliwyd yn 2021-2022 wedi bod yn sail i Gynllun Gweithredu'r archwiliad IIA y cytunwyd arno i'w weithredu gan Grŵp y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ym mis Mawrth 2023.

Gan ddefnyddio templed a ddatblygwyd gan 'Deddf', lluniwyd Polisi Dyfarnu Grantiau ac fe'i gweithredwyd ym mis Mai 2022.

## **Safonau gweithredu**

Arhosodd nifer y staff a nododd fod ganddynt sgiliau Cymraeg yn ystod 2022-2023 yn gymharol isel yn gyffredinol. Ond bu cynnydd bach yn nifer y staff a nododd eu bod yn siarad ac yn ysgrifennu'n rhugl (139 o gymharu â 137 yn ystod 2021-2022) er bod nifer y dysgwyr Cymraeg wedi gostwng 3.



**Cyfeirlyfr gweithwyr sy'n siarad Cymraeg** - Nodwyd bod 126 aelod staff ar ein cyfeirlyfr gweithwyr yn fodlon/abl i ddefnyddio eu sgiliau iaith fel rhan o'u gwaith.

Rhagwelwyd y byddai fframwaith i gynorthwyo'r hunanasesiad sgiliau iaith (ac felly o bosibl hybu'r niferoedd yn y cyfeiriadur) wedi'i gyflwyno yn ystod 2022-2023. Yn anffodus, mae hyn wedi'i ohirio er mwyn sicrhau y gall gael ei seilio ar y cyngor diweddaraf gan y Comisiynydd a ddisgwylir yn gynnar yn haf 2023.

**Gwybodaeth, a deunydd cymorth** - mae canllawiau a deunydd cymorth arall ar ddefnyddio a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar gael i'r holl staff drwy dudalennau Cymraeg NPT Connect. Yn ystod y flwyddyn mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi goruchwyllo gwaith i hybu'r iaith ymhlith staff yn ogystal â helpu i sicrhau bod cyngor a chymorth ar gydymffurfio yn cael ei ddiweddarau.

I gynorthwyo gyda hyn, sefydlwyd sianeli cyfathrebu Yammer.

## Sianeli Cyfathrebu Yammer i Staff Newydd

Ym mis Hydref 2022, datblygwyd dwy Sianel Cyfathrebu Yammer i staff newydd sbon. Mae Sianel Yammer Safonau a Chanllawiau'r Gymraeg yn darparu gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg gyda chyfeiriadau at ddogfennau canllaw a gwybodaeth, er mwyn galluogi staff i gydymffurfio â'r safonau yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Defnyddiwyd y sianel hefyd i dynnu sylw at ddigwyddiadau diwylliannol pwysig megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.

### Breaking News - new staff yammer channel



A brand new staff yammer channel is being launched next week. The Welsh Language Standards and Guidance channel will provide you with lots of information that you need to know about the Welsh Language Standards. Over the coming months, we will highlight different topics, to help you to comply with the standards in your day to day work and signpost you to guidance and support documents. All staff with access to Office 365 will automatically be added to the channel from 5th October. Remember guidance and support documents can still be found on the [Welsh Language page](#) of the staff intranet.

A further Yammer channel specifically for Welsh speakers and learners will be launched mid-October, providing a place to chat to learner colleagues, ask for help with simple translations or perhaps link up with a Welsh speaking 'buddy' to have more conversation practice? You'll be able to join this channel from 13th October

.... watch this space !

Yn dilyn lansio sianel Safonau a Chanllawiau'r Gymraeg lansiwyd ail sianel; mae'r sianel Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg yn lle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr rannu awgrymiadau, hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg lleol a rhannu manylion am gyfleoedd hyfforddi / magu hyder pellach.

### A brand new Staff Yammer Channel has been launched...



The Welsh speakers and learners channel is a place to chat to learner colleagues, ask for help with simple translations or perhaps link up with a Welsh speaking 'buddy' to have more conversation practice? It is also the place to find out about any local Welsh Language events!

If you are one of our colleagues who has an email address ending with @npt.gov.uk email you can access Yammer, so can join this channel NOW!

Ym mis Chwefror 2023, gofynnwyd i staff am eu barn am sianeli Yammer a pha mor hawdd oedd cael gafael ar ganllawiau a gwybodaeth am y Gymraeg. Roedd ychydig dros 87% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r canllawiau iaith Gymraeg sydd ar gael ac o'r ymatebwyr a oedd wedi defnyddio'r canllawiau roedd 91% yn gweld y wybodaeth ofynnol yn hawdd ei chanfod ac yn ddefnyddiol ar gyfer eu rôl. I gynorthwyo'r staff hynny nad oedden nhw'n ymwybodol o argaeledd y canllawiau ar yr iaith Gymraeg, bydd fideo esboniadol yn cael ei gyhoeddi (2023).

## Hyfforddiant

Mae'r Swyddog Datblygu sy'n siarad Cymraeg yn parhau i gynnal sesiynau Cymraeg a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer cydweithwyr yn y Tîm Dechrau'n Deg a'r Tîm Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar i wella eu gallu sylfaenol i siarad Cymraeg.

Mae yna raglen hyfforddi gwbl gynhwysol i'r holl staff, a ddarperir gan ein Canolfan Cymraeg i Oedolion leol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cyrsiau yn cynnwys '*Introduction to Learning Welsh*', '*Croeso Cymraeg Gwaith*' (*Work Welsh Welcome*) Gloywi Iaith (*Improving Your Written Welsh*). Mae cyrsiau'n cael eu hysbysebu ar ein tudalennau Yammer cyfathrebu â staff mewnol gan gynnwys tudalen ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn unig, ac ar ein tudalen 'NPT Connect' ar y fewnrwyd lle mae gennym faes penodol ar gyfer hyfforddiant Cymraeg. Dosberthir gwybodaeth hefyd trwy e-bost a'i gyhoeddi yn ein Rhaglen Hyfforddi flynyddol. Eleni rydym wedi cyhoeddi ein rhaglen hyfforddi yn electronig gan ddefnyddio *Book Creator* a gellir ei gweld trwy ddefnyddio'r ddolen hon,

<https://read.bookcreator.com/DcX1g6fVoYWXnNpfsqOgpPRK4l63/aNMS1lj uSa6lG3 sZSgIDQ>

Yn 2022-23 gwnaethom gofrestru 40 o staff ar gyrsiau Cymraeg amrywiol. Ar hyn o bryd mae gennym 67 o staff wedi cofrestru ac ar wahanol gamau o'u cwblhau, ac mae 21 staff wedi cwblhau cyrsiau'n llawn gan gynnwys 2 a gwblhaodd y cwrs lefel Mynediad Llawn 120 awr.

Yn gyffredinol, y cyrsiau Cymraeg ar-lein a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw'r opsiwn a ffafrir gan staff. Mae adborth a dderbyniwyd gan ddysgwyr yn nodi mai'r rheswm am hyn yw bod modd cwblhau'r cyrsiau ar-lein ar gyflymder y dysgwyr ac yn amser y dysgwyr eu

hunain. Mae dysgu ar-lein yn hunan-gyfeiriedig sy'n golygu y gall ffitio o amgylch cydbwysedd bywyd a gwaith. Roedd adborth arall a dderbyniwyd gan ddysgwyr ar y cyrsiau Cymraeg ar-lein yn cynnwys er bod iddynt lawer iawn o fanteision a'u bod yn gyrsiau da iawn, roedd diffyg cyfleoedd sgwrsio a lleoliadau naturiol i siarad Cymraeg ag eraill a theimlid y byddai gallai ychwanegu'r rhain yn cryfhau'r broses ddysgu.

Mae myfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n cael eu secondio a'u noddi gan y Cyngor yn cael eu cyfarwyddo i gwblhau'r cwrs e-ddysgu 'Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot' i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Castell-nedd Port Talbot ac wrth gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ac Addysgwyr Ymarfer hefyd yn derbyn hyfforddiant ar Gyd-destun Cymraeg fel rhan o'u Cyfleoedd Dysgu Ymarfer.

Mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n dechrau ar eu hail flwyddyn o ymarfer ddilyn rhaglen gyfnerthu sydd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mae partneriaeth 'Porth Agored', y mae'r Cyngor yn bartner iddi, yn gyfrifol am ysgrifennu, datblygu a gweithredu'r rhaglen atgyfnerthu ac mae'n gweithio ar y cyd â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae gan ein Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys llyfrau ymadroddion, llyfrau cwrs, geiriaduron a darllen ysgafn, sydd ar gael i'w benthyca i ychwanegu at ac ategu cyrsiau hyfforddiant iaith.

Mae ein cyfnod sefydlu corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau Cymraeg ac yn annog rheolwyr i drafod a gwneud gweithwyr newydd yn ymwybodol o safonau'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Ymdrinnir hefyd ag adrannau eraill o'r rhaglen gynefino gan gynnwys gosod llofnodion dwyieithog, ateb y ffôn yn ddwyieithog ac ati.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd 231 aelod staff y modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae'r cwrs yn rhoi trosolwg o hanes y Gymraeg ac yn ymdrin â gofynion yr awdurdod lleol o dan Safonau'r Gymraeg.

## Safonau Hyrwyddo

Cytunwyd yn y Cabinet ar 19 Hydref 2022 i ailsefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Hybu'r Gymraeg er mwyn datblygu ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-2028. Roedd gwerthusiad o'r strategaeth gychwynnol wedi'i gynnal ac roedd yn rhan o ystyriaethau'r Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod datblygiad y Strategaeth ddiwygiedig.

Cynhaliwyd cyfnod o bedair wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Ebrill a 15 Mai, a bydd adborth ohono yn sail i fersiwn derfynol y strategaeth, a'r dyddiad cyhoeddi a ragwelir yw Gorffennaf 2023.

Bydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022-2023 yn cael ei gynhyrchu yn hydref 2023.

## Gofynion Deddfwriaethol Penodol

### Swyddi Gwag ar gyfer 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

Gofynion o ran sgiliau'r Gymraeg	Nifer y swyddi	% y swyddi
Hanfodol	29	3%
Dymunol	150	17%
Angen dysgu Cymraeg	5	0.5%
Dim angen sgiliau Cymraeg	712	79.5%

## Sgiliau Iaith y Staff

Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth	Siaradwr ac Ysgrifennwr Gweddol Rugl	Siaradwr Gweddol Rugl	Siaradwr ac Ysgrifennwr Rhugl	Siaradwr Rhugl	Dysgwr Cymraeg	Ychydig neu ddim gwybodaeth	Gwell gennyf beidio â dweud	Cyfanswm
<b>Prif Swyddogion</b>					1	3		4
<b>Swyddfa'r Prif Weithredwr</b>								
Gwasanaethau Digidol	3				7	74	1	85
Gwasanaethau Ariannol	3	4	3		9	138		157
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraataidd	4	2	5	1	15	57		84
Pobl a Datblygu Sefydliadol	2	4	7	1	11	94	1	120
<b>Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes</b>								
Cynhwysiant a Phartneriaethau Blynyddoedd Cynnar	5	3	7	2	35	95	5	152
Datblygu Addysg	7	3	18	4	29	135	6	202
Twristiaeth Hamdden, Treftadaeth a Diwylliant	1	1	6	1	12	95		116
Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid	10	3	22	10	22	357	26	450
<b>Yr Amgylchedd</b>								
Peirianeg a Thrafnidiaeth	2	3	4	2	12	102	2	127
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	4	5	1	1	28	80	2	121
Eiddo ac Adfywio		6	3	2	11	115	3	140
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	3	5	7	6	19	152	1	193
Gwasanaethau Gofal Stryd	10	11	17	7	32	382	9	468
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol Iechyd a Thai</b>								
Gwasanaethau Oedolion	16	11	18	9	49	421	9	533
Gwasanaethau Busnes		3	4	3	9	91	3	113
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	11	7	15	4	55	257	3	352
Tai a Chymunedau		3	2		11	65		81
<b>Cyfanswm</b>	<b>81</b>	<b>74</b>	<b>139</b>	<b>53</b>	<b>367</b>	<b>2713</b>	<b>71</b>	<b>3498</b>



## Cwynion

Dim ond un gwyn a dderbyniwyd yn ystod 2022-2023 drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac ni wnaethpwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i'r Cyngor.

**CS1007** – Roedd y gwyn mewn perthynas â gwaith papur a dderbyniwyd yn cynnwys cyfarwyddiadau pleidleisio ar gyfer yr etholiadau lleol. Honnid bod y gwaith papur yn cynnwys gwallau a'i fod yn anodd ei ddeall. Penderfynodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gyfrifol am y gwaith papur sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn pleidleisio drwy'r post. Cyhoeddir y gwaith papur (sy'n cynnwys testun rhagnodedig) gan y Swyddog Canlyniadau nad yw'n rhan o'r Cyngor ac o ganlyniad sydd ddim yn ddarostyngedig i ofynion Safonau'r Gymraeg, felly nid oedd ymchwiliad yn bosibl.

Mae manylion y gwyn wedi'u trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau er gwybodaeth/ystyriaeth.

### **Penderfynwyd ar y cwynion canlynol yn ystod 2022-2023:**

**CS114** - Ymgynghoriad ynglŷn â chau tair ysgol cyfrwng Saesneg i greu ysgol newydd ar gyfer tua 700 o blant ym Mhontardawe. Mae'r gwyn yn honni na wnaeth y Cyngor gynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ystod rhan gyntaf y broses ymgynghori. Mae hefyd yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru nad oedd ar gael i'r cyhoedd, ac felly nid oedd cyfle i wneud sylwadau ar yr asesiad hwnnw. Canfu'r Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 91 gan nad oedd y ddogfen ymgynghori yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effeithiau posibl y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Mae'r Cyngor wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg - mae disgwyl dyddiad gwrandawriad.

## Dweud eich Dweud

Croesewir ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn drwy:

E-bost: [polisi@npt.gov.uk](mailto:polisi@npt.gov.uk)

Post: Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

Cyfryngau cymdeithasol:



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau at dudalen [Facebook](#) y cyngor:



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich sylwadau Trydar ar ein [Tudalen Twitter <https://twitter.com/nptcouncil>](https://twitter.com/nptcouncil)



Dilynwch ni ar [Instagram](#)

## Mesurau

Cyfieithiadau	2020-2021	2021-2022	2022-2023
Cyfanswm cost cyfieithiadau (lle gellir eu nodi)	£43,072	£39,573	£46,701
Nifer y ceisiadau am gyfieithiad a dderbyniwyd gan yr uned gyfieithu	662	815	Amh.

Galwadau Ffôn	2020-2021	2021-2022	2022-2023
Nifer y staff â sgiliau iaith rhugl/gweddol rugl a nodir yn y cyfeiriadur gweithwyr	146	146*	125
Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn – Saesneg	43 eiliad	44 eiliad	65 eiliad
Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn – Cymraeg	51 eiliad	57 eiliad	81 eiliad

Bu cynnydd yn yr amser a gymerir i ateb galwadau yn y ddwy iaith. Mae hyn wedi digwydd oherwydd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys problemau gyda'r systemau teleffon a phroblemau adnoddau mewn meysydd gwasanaeth penodol sydd yn eu tro wedi effeithio ar y ganolfan gyswllt (er bod rhai o'r rhain yn cael eu datrys/wedi cael eu datrys).

Mae'r cynnydd yn yr amser a gymerir i ateb galwadau yn y Gymraeg wedi digwydd oherwydd nifer o faterion gan gynnwys cynnydd mewn dyletswyddau gweinyddol, ailagor canolfannau dinesig, salwch tymor hir, a hyfforddiant i staff newydd sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal ag ateb ffonau, mae gwasanaethau cwsmeriaid hefyd yn darparu dyletswyddau derbynfa ar sail rota; mae hyn yn lleihau argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg i ateb galwadau ffôn. Ar ôl nodi'r angen am ragor o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid, mae siaradwr Cymraeg bellach wedi'i gyflogi. Rydym yn parhau i archwilio ffyrdd o gynyddu'r capasiti hwn.

Ers mis Chwefror 2023 mae perfformiad wedi dechrau gwella.

<b>Cyfyngau Cymdeithasol</b>	<b>31.03.21</b>	<b>31.03.22</b>	<b>31/03/2023</b>
<b>Twitter (Dilynwyr)</b>			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	15,799	16,584	17,107
Cyfrif corfforaethol Cymreig	368	431	476
<b>Facebook</b>			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	15,882	17,704	21,273
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	103	141	236

<b>E-gylchlythyr Newyddion NPT - Nifer y tanysgrifwyr</b>	<b>31.03.21</b>	<b>31.03.22</b>	<b>31/03/2023</b>
e-gylchlythyr Cymraeg	17	17	20
e-gylchlythyr Saesneg	1,922	2,186	2,480
e-gylchlythyr dwyieithog	33	48	63

<b>Gwefan</b>	<b>2020-2021</b>	<b>2021-2022</b>	<b>2022-2023</b>
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r wefan	3,980,097	4,009,274	5,188,512
Trawiadau ar dudalennau gwe Cymraeg	23,423	29,177	25,674

<b>Sgiliau Iaith</b>	<b>2020-2021</b>	<b>2021- 2022</b>	<b>2022-2023</b>
Siaradwr ac awdur gweddol rugl	77	79	81
Siaradwr gweddol rugl	76	80	74
Siaradwr ac ysgrifennwr Cymraeg rhugl	126	137	139
Siaradwr Cymraeg rhugl	48	50	53
Dysgwr Cymraeg	383	400	367

<b>Swyddi Gwag - sgiliau iaith</b>	<b>2020-2021</b>	<b>2021-2022</b>	<b>2022-2023</b>
Dymunol	83	181	150
Hanfodol	2	8	29
Dim angen sgiliau Cymraeg	206	438	712
Angen dysgu Cymraeg	0	0	5

<b>Cwynion</b>	<b>2020-2021</b>	<b>2021-2022</b>	<b>2022- 2023</b>
Nifer y cwynion a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg	2	6	1
Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen ymchwiliad	-	2	1
Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd methiant i gydymffurfio â'r safonau	-	3	-
Ceir manylion y gwyn yn yr adran ar gwynion uchod.			